

## Crynodeb Interniaeth Ynni a Gwastraff INSPIRE 2017/18

### Cefndir y rôl

Bydd yr interniaeth yn canolbwyntio ar ddarparu cyfres o ddigwyddiadau cyfathrebu ynghylch ailgylchu gwastraff a gynhelir yn y neuaddau preswyl ar eich campws, a hefyd yn cymryd rhan yn y digwyddiad Diffodd Popeth a'r Prosiect Effaith Werdd a gynhelir yn genedlaethol ac a fydd yn rhoi cyfle i chi fod yn fyfyrwr archwilydd!

### Ynni

Mae Diffodd Popeth yn ddigwyddiad sy'n canolbwyntio ar ynni a fydd yn digwydd yn y Hydref a Gwanwyn ar draws campysau Abertawe, Caerfyrddin a Llambed y Brifysgol. Bydd yn golygu targedu nifer o adeiladau ar y campws a mynd â thîm o staff a myfyrwyr drwy bob adeilad i ddiffodd goleuadau ac offer, gan archwilio wrth fynd. Bydd yr ymarfer hwn yn ein galluogi i bennu faint o ynni y gellid ei arbed petai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud bob nos a phob penwythnos.

Bydd yr intern yn helpu i gynllunio a hyrwyddo'r digwyddiad a hyfforddiant cysylltiedig, ac yn goruchwyllo'r digwyddiad ar y diwrnod. Bydd yr intern yn ennill profiad o gynllunio digwyddiad a gweithio ar brosiect sy'n hybu arbed ynni.

### Gwastraff

Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i fonitro a gwella ei heffeithlonrwydd adnoddau ac arferion rheoli gwastraff drwy leihau faint o wastraff y mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi ac ar gyfer adfer ynni yn unol â'r hierarchaeth gwastraff. Felly, mae'r Brifysgol wedi gosod targedau ailgylchu gwastraff yn unol â Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni nod cyffredinol o gyfradd ailgylchu o 40% y mis o leiaf erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Mae neuaddau preswyl y Brifysgol yn creu tunelli o wastraff y flwyddyn, ac mae'n bosibl ailgylchu llawer ohono. Tasg yr intern fydd datblygu a chynnal digwyddiadau cyfathrebu ynghylch ailgylchu gwastraff sy'n canolbwyntio ar wella lefelau ailgylchu gwastraff yn neuaddau preswyl y Brifysgol.

Bydd yr intern yn ennill profiad o gynllunio digwyddiadau a gweithio ar brosiect sy'n hyrwyddo dealltwriaeth well o effeithlonrwydd adnoddau ac ailgylchu ymysg myfyrwyr.

### Beth fydd yr interniaeth yn ei olygu?

Bydd interniaid yn cwrdd â'u rheolwr llinell unwaith y mis i gynllunio a thrafod cynnydd. Bydd yr interniaid yn cael y cyfle i gydweithio ar brosiectau gwahanol ac i gymryd rolau blaenllaw mewn digwyddiadau cysylltiedig sy'n digwydd drwy'r flwyddyn. Bydd yr interniaid yn gweithio'n annibynnol a chydag interniaid eraill neu gynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr / staff/myfyrwyr i gwblhau prosiectau. Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei arwain gan yr interniaid o ran amser a bydd yn gofyn am ymrwymiad o 10-15 awr y mis.

Bydd angen i chi gwblhau adroddiadau misol am y gweithgareddau a gyflawnoch ac am eich gweithgareddau arfaethedig. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu hanfon at eich rheolwr llinell ar ddiwedd pob mis.

### Manteision

- Taliad misol rheolaidd ar hyd cyfnod yr interniaeth yn seiliedig ar berfformiad
- Profiad o weithio gyda thîm ar brosiect mewn amgylchedd proffesiynol

- Gwybodaeth am dechnegau rheoli amgylcheddol mewn swyddfeydd a sefydliadau academaidd
- Cipolwg ar ddulliau newid ymddygiad effeithiol
- Profiad cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
- Sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol
- Gallu i gynllunio gweithgareddau a'u cyflawni'n effeithiol hyd at eu gweithredu
- Sgiliau arwain
- Rheoli amser
- Rheoli prosiectau
- Sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn helpu i'ch CV sefyll allan mewn marchnad swyddi gystadleuol